**Parch./Revd Gethin Rhys**
**Swyddog Polisi'r Cynulliad Cenedlaethol / National Assembly Policy Officer**

Jacquie Hughes
OFCOM
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London
SE1 9HA

bbcperformance@ofcom.org.uk

**Perfformiad y BBC – Gwasanaethu'r BBC: Cynulleidfaoedd yng Nghymru**

Cyflwynir yr ymateb hwn ar ran Cytûn – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru. Cytûn yw'r corff ymbarél ar gyfer prif enwadau Cristnogol Cymru ac mae nifer o fudiadau Cristnogol eraill hefyd yn aelodau. Mae gan yr aelod enwadau gyfanswm aelodaeth o ryw 168,000 o oedolion mewn oed ymhob cymuned yng Nghymru, a chyswllt â nifer helaeth eto o oedolion, plant a phobl ifainc. Mae eglwysi lleol yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg a nifer o ieithoedd eraill. Gellir gweld rhestr gyflawn o'n haelodau yn: http://www.cytun.cymru/ni.html

Rydym yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Fe luniwyd yr ymateb yn dilyn ymgynghori gyda swyddogion eglwys a chymdeithas ein haelod enwadau a mudiadau, a chydag unigolion eraill o fewn aelodaeth ein heglwysi sydd â phrofiad yn y maes. Rydym yn canolbwyntio ar yr agweddau sy'n ymwneud yn benodol â Chymru. Rydym wedi cymryd i ystyriaeth yn yr ymateb hwn yr ymateb llawn gan ein haelod enwad, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a ddanfonwyd atoch ar wahân.

1. **Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu cyffredinol ar gyfer gosod y drwydded weithredu?**

Credwn y dylai'r BBC ac OFCOM yn ei holl weithgarwch ddilyn egwyddor Mesur yr Iaith Gymraeg, sef trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal yng Nghymru. Credwn **y dylid cynnwys hyn yn yr amcanion lefel uchel**, a bod hyn yn cynnwys nid yn unig rhaglenni a deunydd a gynhyrchir gan y BBC yng Nghymru, ond pob dim a ddarlledir i neu sydd ar gael yng Nghymru. Deallwn na fyddai modd sicrhau cyfartaledd rhwng oriau Cymraeg ac oriau Saesneg ar draws y BBC, ond fe gredwn fod angen ystyried sut i adlewyrchu statws swyddogol yr iaith Gymraeg yng Nghymru ymhob dim a wna'r BBC. Un enghraifft fyddai gweld a oes modd newid yr arfer o drosleisio pob cyfraniad a wneir yn Gymraeg wrth ddarlledu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar BBC Parliament a Chwestiynau'r Prif Weinidog ar BBC2 Wales. A fyddai modd defnyddio'r botwm coch ar gyfer y cyfieithiad, gan adael i'r iaith wreiddiol gael ei darlledu ar y brif sianel? (Neu, o bosibl, fel arall?)

Enghraifft arall, a gododd ers cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori, yw cefnogi Radio Cymru 2. Mae hwn yn wasanaeth sy'n ceisio llenwi un o'r amryfal fylchau yn y ddarpariaeth darlledu Gymraeg nad yw'r farchnad wedi gallu ei chyflawni. Does neb arall yn cynnig sioe frecwast Gymraeg yn genedlaethol. Credwn y dylai OFCOM ddatgan yn gyhoeddus croeso a chefnogaeth i RC2, fel cynnig newydd, gwahanol, y mae mawr alw wedi bod amdano gan ddefnyddwyr.

2. **Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu rydyn ni wedi'i gynnig ar gyfer diben cyhoeddus 1 gan gynnwys yr amcanion lefel uchel a'r amodau rheoleiddio rydyn ni'n eu cynnig?**

Credwn nad yw para 4.43.2 yn y ddogfen ymgynghori "Dal y BBC i gyfrif" yn gwneud cyfiawnder â rôl y deddfwrfeydd datganoledig. Gweler hefyd ein sylwadau wrth ymateb i Cn 5 isod.

58 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3AT | 58 Richmond Road, Cardiff CF24 3AT | 029 2046 4378
gethin@cytun.cymru | www.cytun.cymru
Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 5853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071
Cytûn is a registered company in England and Wales | Number: 5853982 | Registered name: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Cytûn is a registered charity | Number: 1117071

**Parch./Revd Gethin Rhys**
**Swyddog Polisi'r Cynulliad Cenedlaethol / National Assembly Policy Officer**

3. **Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu rydyn ni wedi'i gynnig ar gyfer diben cyhoeddus 2 gan gynnwys yr amcanion lefel uchel a'r amodau rheoleiddio rydyn ni'n eu cynnig?**

At ei gilydd, ydyn. Ond noder ein sylwadau am yr iaith Gymraeg dan Gn 1 uchod. Credwn fod yna fethiannau yn y farchnad ar gyfer darparu deunydd addysgol ffurfiol ac anffurfiol trwy gyfrwng y Gymraeg, ac y dylai'r BBC gymryd hynny i ystyriaeth wrth benderfynu ar ei harlwy arlein yn Gymraeg. Tra gellid dadlau fod peth o ddarpariaeth arlein addysgol y BBC yn Saesneg yn cystadlu gyda darparwyr preifat yn y farchnad, prin fod hynny'n wir yn achos darpariaeth Gymraeg.

4. **Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu rydyn ni wedi'i gynnig ar gyfer diben cyhoeddus 3 gan gynnwys yr amcanion lefel uchel a'r amodau rheoleiddio rydyn ni'n eu cynnig?**

Ydyn. Credwn fod para 4.70 eto yn awgrymu, yn achos Cymru, y dylid bod yn darparu mwy o ddeunydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Fe fyddai hyn yn gwella'r "cymysgedd" (a), y ganran a gynhyrchir yn y DU (c), "uchelgais creadigol a chymryd risg" (d) a gwasanaethu "cynulleidfaoedd amrywiol". Credwn y dylai hyn gael ei gydnabod yn llawnach yn y Drwydded ddrafft, yn enwedig yn Atodlen 1.

5. **Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu rydyn ni wedi'i gynnig ar gyfer diben cyhoeddus 4 gan gynnwys yr amcanion lefel uchel a'r amodau rheoleiddio rydyn ni'n eu cynnig?**

Mae Cytûn yn croesawu diben cyhoeddus (4), yn enwedig y gofyn i wasanaethu Cymru (a gwledydd a rhanbarthau eraill). Mae hyn yn unol â'r hyn y gofynnodd Cytûn amdano wrth ymateb i ymgynghoriad y Llywodraeth am Siarter newydd i'r BBC. Credwn fod yr egwyddorion a gyflwynir ym mharagraff 1.31 y Drwydded Ddrafft yn adlewyrchu'r Ddiben hon a sut y dylid ei throi yn weithredu ymarferol.

Ond rydym yn siomedig ynghylch rhai o'r gofynion penodol a gyflwynir yn Atodlen 1 er gwireddu hyn. Gan gofio ein sylwadau cyffredinol yn ein paragraff 1 uchod, os mai bwriad OFCOM yw cyflwyno gofynion manwl ar gyfer pob gwasanaeth, teimlwn fod y gofynion ar gyfer Cymru yn Atodlen 1 yn ddiffygiol fel ag y maent yn sefyll. Yn benodol, byddem yn tynnu sylw at y canlynol:

2.52 Mae'r cyfanswm o 300 o oriau y flwyddyn ar BBC Parliament ar gyfer seneddau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon gyda'i gilydd yn gyfanswm llawer rhy isel o ystyried pwysigrwydd y seneddau hynny nid yn unig ar gyfer y gwledydd datganoledig ond hefyd ar gyfer y DU cyfan – o ran gwahaniaethau polisi, ac o ran y naill wlad yn dysgu gan y llall fel sy'n digwydd yn gynyddol (e.e. codi 5c am fagiau plastig neu trefn optio allan ar gyfer rhoi organau, dau bolisi a ddechreuodd yng Nghymru heb fawr o ymwybyddiaeth yng ngweddill y DU ond sydd bellach yn cael eu mabwysiadu mewn gwledydd eraill y DU). Credwn y gallai OFCOM sicrhau fod BBC Parliament yn rhoi gwell cynrychiolaeth i'r seneddau etholedig hyn, a rhywfaint llai i Dŷ'r Arglwyddi. Enghraifft nodedig o'r diffyg hwn oedd bod BBC Parliament wedi parhau i ddarlledu o Dŷ'r Arglwyddi ym Mehefin 2016 pan oedd Cynulliad Cymru yn methu ag ethol prif Weinidog.

2.66.1 Teimlwn fod 275 awr yr wythnos o raglenni newyddion a materion cyhoeddus ar BBC Wales yn rhy isel, yn enwedig o gofio methiant y farchnad yng Nghymru i ddiwallu'r angen am newyddion a materion cyhoeddus yn benodol am Gymru (gweler, er enghraifft Awdit Cyfryngau y Sefydliad Materion Cymreig yn 2015). Mae'n gwbl annerbyniol fod y cyfansymiau a bennir i'r Alban (2.59.1) a Gogledd Iwerddon (2.72.1) yn sylweddol uwch. Credwn y dylai ffigwr Cymru fod gyfuwch â'r 310 awr yng Ngogledd Iwerddon.

2.66.2 Mae'r 65 o oriau y flwyddyn a bennir i raglenni nad ydynt yn newyddion ar BBC One Wales yn rhyfeddol o isel – nemor fwy nag awr yr wythnos. Pennir 155 awr i'r Alban (2.59.2) a 90 i Ogledd Iwerddon. O gofio fod y BBC bellach wedi cyhoeddi sefydlu sianel Saesneg ar wahân i'r Alban yn ychwanegol at yr oriau hyn, credwn y dylai'r

oriau a bennir yng Nghymru fod yn uwch nag a bennir i'r Alban, gan nad oes yng Nghymru sianel Saesneg ar wahân.

2.68 Mae'r un ystyriaethau yn wir am BBC Two Wales, yn enwedig am y gellir cyflenwi rhai o'r oriau hyn trwy ail-ddarlledu rhaglenni yn hytrach na chreu rhai newydd.

2.8.1 a 2.10.1 Rydym yn ymwybodol iawn fod mwyafrif gwrandawyr a gwylwyr Cymru yn derbyn eu rhaglenni trwy ddarparwyr (gan gynnwys y BBC) nad ydynt wedi eu lleoli yng Nghymru. Nid oes disgwyl i'r BBC newid y sefyllfa honno ar ei liwt ei hunan, ond mae gan y BBC gyfrifoldeb arbennig fan hyn gan ei bod yn un corff sy'n darlledu ar draws Prydain o'r tu allan i Gymru ac o'r tu fewn. Hoffem weld Ofcom yn mynnu y dylai peth o wasanaeth newyddion Radio 1 a/neu Radio 2 gael ei gynhyrchu yng Nghymru yn ystod yr oriau brig er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r diffyg democrataidd a diffyg gwybodaeth am Gymru ymysg y sawl sy'n derbyn eu newyddion o ffynonellau traws-Brydeinig yn unig.

**6. Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu Ofcom ar gyfer sut byddwn yn gosod ac yn diwygio'r drwydded weithredu, fel y nodir yn Atodiad 5?**

Yn Atodlen 5 A5.5, credwn y dylid sicrhau ymgynghoriad cyhoeddus ar bob newid i drwydded y BBC, ac y dylai'r ymgynghori hwnnw ymhob achos cynnwys ymgynghori gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru, er mwyn sicrhau mewnbwn gan gynrychiolwyr etholedig yng Nghymru.

**7. Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu cyffredinol arfaethedig ar gyfer mesur perfformiad?**

Rydym yn deall fod y drefn reoleiddio newydd hon yn ddatblygiad pwysig i OFCOM ac i'r BBC. Rydym yn deall yr awydd i osod isafswm oriau ar gyfer rhai mathau o raglenni a phennu safonau ar gyfer cynnyrch y BBC. Ond fe gredwn na ddylai atebolrwydd y BBC am safonau darlledu a chynnyrch droi yn llyffetheiriau a rheolau a allai gyfyngu ar allu'r BBC i arloesi ac ymateb i alw'r cyhoedd mewn meysydd newydd trwy ei gyfyngu i nodau penodol a osodwyd ar gychwyn y broses. Mae hyn yn arbennig o wir gan fod cymaint o feincnodau wedi eu gosod fel y gallent ryngweithio mewn ffyrdd na ellir ar hyn o bryd eu rhagweld, ac efallai creu canlyniadau anfwriadol. Nid yw'n rhwydd gwerthuso gwerthfawrogiad cynulleidfa, gwerth cyhoeddus rhywbeth, mewn graff a tharged. Pwyswn felly am ddoethineb ar ran OFCOM wrth fynd ati i sicrhau bod corff cyhoeddus mawr yn atebol ond ddim yn cael ei lethu.

**8. Ydych chi'n cytuno â'r fframwaith arfaethedig o: argaeledd; defnydd; effaith; ffactorau cyd-destunol**

Credwn y dylid cynnwys aelodau etholedig yn y rhestr o randdeiliaid yr ymgynghorir â nhw. Efallai nid "arbenigwyr" yw'r disgrifiad gorau ohonynt, ac y dylid ystyried categori ar wahân ar eu cyfer. Yn achos darlledu yng Nghymru, byddai Aelodau Cynulliad yn arbennig o bwysig yn hyn o beth, ond hefyd Aelodau Seneddol a chynghorwyr lleol (ac, am y tro, Aelodau Senedd Ewrop).

**9. Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu Ofcom ar gyfer sut byddwn yn gosod ac yn diwygio'r mesurau perfformiad?**

Gweler ein hymateb i Cn 7.



**Gethin Rhys (ar ran Cytûn)**
**03.07.2017**

58 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3AT | 58 Richmond Road, Cardiff CF24 3AT | 029 2046 4378
gethin@cytun.cymru | www.cytun.cymru

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 5853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071
Cytûn is a registered company in England and Wales | Number: 5853982 | Registered name: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Cytûn is a registered charity | Number: 1117071